

Office for National Statistics
Swyddfa Ystadegau Gwladol

2011 Cyfrifiad Census

# Cyfrifiad 2011

## Adroddiad Cyffredinol ar gyfer Cymru a Lloegr





# Rhagair gan yr Ystadegydd Gwladol



*Jill Matheson, Ystadegydd Gwladol (1 Medi 2009 - 30 Mehefin 2014)*

Fel yr Ystadegydd Gwladol yn ystod Cyfrifiad 2011, bu'n fraint cael fy llofnod ar bob un o'r 25.4 miliwn o ffurflenni a ddosbarthwyd. Mae'r Cyfrifiad Poblogaeth a Thai bob deng mlynedd yn dasg eang a chymhleth, a ddisgrifir yn aml fel y gweithrediad mwyaf i ddigwydd yn y wlad mewn cyfnod o heddwch. Hwn yn bendant yw'r ymarfer ystadegol mwyaf y gallwn ei ystyried, gan iddo gyffwrdd â phob unigolyn a chartref yn y wlad.

Mae'n rhoi cyfle i ni gael darlun cywir, cynhwysfawr a chyson o boblogaeth y wlad. Mae'r canlyniadau yn amhrisiadwy o ran llunio polisïau cenedlaethol a lleol, cynllunio a thargedu adnoddau'n effeithiol. Dyma'r unig ffynhonnell o ystadegau y gellir eu cymharu'n uniongyrchol ar gyfer ardaloedd bach a grwpiau gwahanol o'r boblogaeth, ac sy'n gyson ledled Cymru a Lloegr a gweddill y Deyrnas Unedig ar y cyfan. Fe'i defnyddir fel ffynhonnell gyfeirio ar gyfer llawer o gyfresi ystadegol megis amcangyfrifon ac amcanestyniadau o'r boblogaeth ac arolygon sampl.

Mae'r Adroddiad Cyffredinol hwn yn adolygu'r cyfrifiad cyfan o'r camau ymgynghori a chynllunio cyntaf i'r broses o gynhyrchu a lledaenu allbynnau a gwerthuso, a thu hwnt. Mae'n darparu cyfoeth o fanylion ynglŷn â'r modd y cafodd y cyfrifiad ei gyflawni a'r hyn rydym wedi'i ddysgu ar gyfer cynllunio'r cyfrifiad nesaf. Gobeithio y bydd yn ddefnyddiol i'r rheini sy'n defnyddio data'r cyfrifiad yn gyson neu'n achlysurol, yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol.

Mae gan bob cyfrifiad ei nodweddion unigryw ei hun - datblygiadau a chamau arloesol newydd i ddiwallu anghenion newidiol defnyddwyr, adlewyrchu amgylchiadau demograffaidd ac economaidd-gymdeithasol, a chroesawu methodolegau a thechnolegau newydd. Roedd hyn yn wir am Gyfrifiad 2011 ac yma hoffwn drafod rhai ohonynt - mae'r adroddiad yn manylu ar y rhain ac eraill.

Cafodd holiaduron eu hanfon drwy'r post i gartrefi ledled y wlad. Roedd hyn yn newid sylfaenol o ran y gweithrediadau maes, gan dorri'r traddodiad 200 mlynedd o gael cyfrifwr yn galw ym mhob cartref i ddosbarthu pob holiadur â llaw.

Fel y digwyddodd yn 2001, cafodd y rhan fwyaf o'r holiaduron a lenwyd eu dychwelyd yn y post, gan alluogi'r staff maes i ganolbwyntio ar gysylltu â'r cartrefi hynny nad oeddent wedi dychwelyd yr holiadur yn syth. Roedd rhannau o'r wlad lle roeddem yn gwybod eu bod yn anodd eu cyfrif - cafodd yr ardaloedd hyn eu targedu gyda'r nod o leihau'r achosion o dangyfrif gwahaniaethol a gafwyd yng Nghyfrifiadau 1991 a 2001.

Yr hyn a oedd yn ofynnol er mwyn gwneud hyn oedd sicrhau bod cofrestr cyfeiriadau genedlaethol ddibynadwy a oedd wedi'i derbyn yn eang ar gael - rhywbeth nad oedd yn bodoli yn y gorffennol. Am y tro cyntaf, creodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol gofrestr a oedd yn addas at y diben, drwy nodi cyfeiriadau unigol ac nid mannau dosbarthu post yn unig. Roedd y rhestr, yn ogystal â chod bar unigryw ar gefn pob holiadur, yn golygu bod modd olrhain statws ffurflenni unigol yn y maes a'u monitro'n ganolog, gan wneud gwaith dilynol yn effeithlon.

Hefyd, am y tro cyntaf, cafwyd cyfleuster ar-lein diogel i bobl ymateb. Yn ogystal â lleihau nifer yr holiaduron papur i'w prosesu, cyflymodd y broses gyfan drwy gynnwys system i sicrhau ansawdd yr ymatebion yn awtomatig cyn iddynt gael eu cyflwyno.

Ehangodd SYG yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarparwyd gan gontractwyr allanol i gynnwys recriwtio, hyfforddi a thalu'r staff maes. Llwyddodd y cyflenwr i ddenu staff o safon uchel, gan adlewyrchu eu cymuned leol yn well.

Cafodd cwestiynau newydd ynglŷn â hunaniaeth genedlaethol, pasbortau (yn lle dinasyddiaeth), mis a blwyddyn cyrraedd y DU a'r cyfnod y bwriadwyd aros, iaith, ac ail gyfeiriad eu cyflwyno am y tro cyntaf. Roedd y cwestiynau newydd hyn yn adlewyrchu'r gofynion newidiol am wybodaeth gan ddefnyddwyr a'r angen i wella dealltwriaeth o'r cysyniad o breswylfa arferol. Cafodd y cwestiwn hirsefydledig ynglŷn â statws priodasol ei ehangu er mwyn casglu gwybodaeth am bartneriaethau sifil. Cafodd cwestiynau newydd ar y math o wres canolog a ddefnyddiwyd a nifer yr ystafelloedd gwely eu cyflwyno hefyd er mwyn mesur safonau tai mewn modd mwy perthnasol.

Llwyddodd ymgyrch gyhoeddusrwydd genedlaethol arloesol, a gefnogwyd gan frand deniadol, rhaglen ymgysylltu leol a chymunedol ddwys, a chyfleuster hunangymorth ar-lein, i rannu'r negeseuon allweddol â chynulleidfa eang. Cafodd deunydd ategol ac esboniadol, gan gynnwys testun y cwestiynau, eu cyfieithu mewn 56 o ieithoedd tramor. Mae'r ffaith ein bod nid yn unig wedi cynnal y lefel ymateb gyffredinol o'i chymharu â 2001, ond wedi'i chynyddu yn yr awdurdodau lleol hynny a gydnabuwyd fel rhai y mae'n anos eu cyfrif, yn dystiolaeth o lwyddiant yr ymgyrch.

Roedd y gwaith sicrhau ansawdd yn fwy helaeth nag o'r blaen, gan ennyn hyder y defnyddwyr yn ansawdd y canlyniadau. Mae allbynnau'r cyfrifiad wedi'u cynhyrchu'n gynharach nag allbynnau Cyfrifiad 2001, cawsant eu hategu gan ddulliau delweddu data arloesol ac maent wedi cael llawer o sylw yn y wasg. Mae technoleg ar-lein wedi ei gwneud yn bosibl i ledaenu mwy nag erioed o ddata'r cyfrifiad, y mwyaf a gynhyrchwyd, a chynyddu mynediad iddynt. Yn ogystal â hyn, am y tro cyntaf, rydym wedi ceisio asesu'r manteision sydd wedi codi o ddefnyddio data o'r fath.

Yn ôl yr arfer, roedd cyfrinachedd a diogelwch y wybodaeth a gasglwyd yn y cyfrifiad yn brif flaenoriaeth. Gallwn sicrhau'r cyhoedd ein bod wedi rhoi'r trefniadau mwyaf trylwyr erioed ar waith i ddiogelu eu gwybodaeth bersonol. Roedd gwaith cynllunio a rheoli risg cadarn yn golygu na fu unrhyw achosion sylweddol yn ymwneud â diogelwch wrth gynnal y cyfrifiad.

Roedd gwaith cynllunio manwl yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y cyfrifiad cyfan yn llwyddiannus, ac rwy'n ddiolchgar i bawb am eu hymrwymiad i hynny. Gyda rhaglen o'r maint hwn bydd bob amser wersi i'w dysgu ar gyfer y dyfodol - caiff y rhain eu trafod ymhellach yn yr adroddiad.

Roedd cwmpas poblogaeth cyffredinol Cyfrifiad 2011 unwaith eto'n cyrraedd safonau ar gyfer cylch cyfrifiadau rhyngwladol 2011, os nad yn well na hwy, ac, fel y nodir, roedd yn welliant cyffredinol o'i gymharu â 2001. Fel fy rhagflaenwyr, mae'n rhaid i mi ddiolch i'r bobl ganlynol am hyn: y cyhoedd am lenwi eu holiaduron; y llu o 35,000 o aelodau o staff maes dros dro a gyflogwyd ar hyd a lled y wlad i gynnal y cyfrifiad; a'r staff hynod ymroddedig yn SYG, mewn cydweithrediad â staff yn Llywodraeth Cymru, Cofnodion Cenedlaethol yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon.



**Jil Matheson**
*26 Mehefin 2014*

Yr Adroddiad Cyffredinol yw cyfrif swyddogol a chynhwysfawr y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr. Mae gwybodaeth o’r cyfrifiad bob deng mlynedd yn sail i bolisi cyhoeddus a darpariaeth gwasanaethau, yn y sector cyhoeddus ac yn y sector preifat. Bydd canlyniadau'r cyfrifiad yn sail i benderfyniadau allweddol a gynhelir drwy gydol y degawd.

Mae'r adroddiad yn adolygu'r cyfrifiad cyfan o'r camau ymgynghori a chynllunio cynnar i'r gweithgareddau maes a phrosesu data, gan gynnwys cipio data a chodio holiaduron a’r addasiad llawn o gyfrifiadau'r cyfrifiad, i'r broses o gynhyrchu a lledaenu allbynnau a gwaith gwerthuso.

Mae'n darparu cyfoeth o fanylion ynglŷn â'r modd y cafodd y cyfrifiad ei gynnal a pha wersi sydd wedi'u dysgu ar gyfer cynllunio'r cyfrifiad nesaf. Mae wedi'i anelu at ddefnyddiwr cyson ac achlysurol o ddata'r cyfrifiad, ond y gobaith yw y gall hefyd fod yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth i'r cyhoedd yn ehangach.

Office for National Statistics
Swyddfa Ystadegau Gwladol

www.ons.gov.uk

Argraffwyd ym Mhrydain Fawr